COLEG DEWI SANT

# POLISI EFRYDIAETH

Yng Ngholeg Dewi Sant rydym yn ymfalchïo ein bod yn *ffrindiau beirniadol* i'n dysgwyr. Mae hyn yn golygu, yn ogystal â'ch anog. Eich cefnogi a'ch canmol pan fo'n bosibl, fydd angen i ni hefyd herio unrhyw ymddygiad sy'n debygol o'ch atal rhag cyflawni eich potensial neu sy'n cael effaith negyddol ar eraill. Gallai hyn ymwneud â'ch lefelau presenoldeb, prydlondeb, cyflwyno gwaith neu ymddygiad yn yr ystafell dosbarth.

Os oes camymddwyn difrifol yna gall rheolwyr benderfynu symud myfyriwr yn gynt drwy'r broses.

## 1 Beth fydd athro/athrawes yn ei wneud os oes pryderon am fy efrydiaeth?

Bydd yr athro yn siarad â chi ac yn trafod pam ei fod yn pryderu. Gobeithio y byddwch yn gallu gweithio gyda nhw i ddatrys y broblem. Os nad yw hyn yn bosib, bydd eich athro yn ffonio adref ac yn siarad â'ch perthynas agosaf am eu pryderon.

## 2 Beth fydd yn digwydd os bydd problem yn parhau?

Bydd yr athro yn rhoi 'Hysbysiad o Bryder' (Notice of Concern) i chi. Mae hyn yn golygu eu bod yn poeni digon am eich efrydiaeth i wneud cofnod ffurfiol o'r sefyllfa. Caiff ei gofnodi ar yr ILP a bydd yn cael ei adolygu ar ôl 3 wythnos waith gan Reolwr Maes Dysgu'r pwnc a fynegodd bryder am eich efrydiaeth. Byddant yn edrych ar eich presenoldeb ac ar y cofnod-lyfr cyswllt i wneud penderfyniad ynghylch os ydych wedi llwyddo i wneud gwelliannau.

## 3 Beth syn digwydd os nad wyf wedi gwneud gwelliannau?

Bydd cyfarfod yn cael ei gynnal rhyngoch chi, eich tiwtor bugeiliol a'ch perthynas agosaf. Byddwn yn trafod y rhesymau dros eich problemau pellach o ran efrydiaeth. Byddwch yn arwyddo dogfen sy'n dangos eich bod yn deall pryderon y coleg a'ch bod yn cytuno i weithio i wneud gwelliannau.

## 4 Beth syn digwydd ar ol hynny?

Byddwch yn cael eich adolygu bob wythnos gan eich tiwtor bugeiliol a'u rheolwr llinell tan ddiwedd y flwyddyn academaidd. Os yw'n amlwg na fu gwelliant i'ch efrydiaeth yn yr adolygiad hwn yna bydd yn ofynnol i chi fynychu Gwrandawiad Achos (Case Hearing). Yn y Gwrandawiad Achos, bydd aelod o'r Tîm Rheoli Bugeiliol yn ystyried eich amgylchiadau unigol. Byddan nhw'n penderfynu a allwch barhau i fod yn ddysgwr neu a oes rhaid i chi gael eich gwahardd.

## 5 Os caf fy ngwahardd, alla i apelio yn erbyn y penderfyniad?

Gallwch. Mae'n rhaid i'ch apêl fod yn ysgrifenedig, ac wedi'i gyfeirio at Ms Ruth Jones o fewn 5 diwrnod gwaith i'ch gwaharddiad.

ST DAVIDS COLLEGE

# STUDENTSHIP POLICY

At St David's we pride ourselves on being *critical friends* to our learners. That means that as well as being encouraging, supportive and giving praise where possible, we also need to challenge any behaviour that is likely to stop you from achieving your potential or has a poor effect on others. This could be to do with your attendance level, your punctuality, submission of work or classroom behaviour.

Where serious misconduct has occurred then managers can decide to move a student more quickly through the process.

## 1 What will a teacher do if there are concerns about my studentship?

The teacher will discuss with you why they are concerned. Hopefully, you will be able to work with them to solve the problem. If this is not the case then your teacher will phone home and speak to your next of kin.

## 2 What will happen if there continues to be a problem?

The teacher will issue you with a ***Notice of Concern***. This means that they are worried enough about your studentship to make a formal record. It is recorded on the ***ILP*** and will be reviewed after three working weeks by the ***Learning Area Manager*** of the subject concerned. They will look at your attendance and ILP to see whether you have managed to make improvements.

## 3 What happens if I have not made improvements?

A meeting will be held between you, your ***pastoral tutor*** and your ***Next of Kin***. We will discuss the reasons for your continued studentship problems. You will sign a document that shows you understand the College's concerns and that you agree to work to make improvements.

## 4 What happens after that?

Your case will be reviewed weekly by your ***pastoral tutor*** and their line manager until the end of the academic year. If there has clearly not been an improvement to your studentship then you will be required to attend a ***Case Hearing***. A member of the ***Pastoral Management Team*** will then consider your individual circumstances. They will decide whether you can remain as a learner or if you have to be ***excluded***.

## 5 If I am excluded, can I appeal the decision?

Yes. Your ***appeal*** has to be in writing, and addressed to Ms Ruth Jones within five working days of your exclusion.